William Carey 1761–1834

Cenhadwr yn India a chyfieithydd y Beibl

Ganwyd William Carey yn Paulerspury, Swydd Northampton, yn fab hynaf o bump o blant i Edmund Carey ac Elizabeth Wells. Gwehydd oedd ei dad wrth ei alwedigaeth ond yn ddiweddarach aeth yn glerc plwyf ac yn ysgolfeistr. Pan oedd William yn bedair ar ddeg oed cafodd ei brentisio fel crydd ym mhentref cyfagos Piddington. O dan ddylanwad ei gydweithwyr dechreuodd fynd i gwrdd gweddi Anghydffurfiol ac o 1779 ymlaen i gapel Cynulleidfaol yn Hackleton. Priododd Dorothy Plackett ym 1781 ac ymunodd â'r Bedyddwyr yn Northampton. Gan barhau fel crydd dechreuodd bregethu i'r eglwys Fedyddiedig yn Earls Barton a threuliai ei amser rhydd yn astudio Lladin, Groeg a Hebraeg. Symudodd ym 1785 i ofalu am eglwys yn Moulton gan barhau fel ysgolfeistr a chrydd. Enynnwyd ei ddiddordeb yn y byd y tu hwnt i Ewrop trwy iddo ddarllen hynt a helynt Capten James Cook ar ei fordeithiau ym moroedd y de. Daeth yn ymwybodol o anghenion ysbrydol y bobl oedd yn byw yno. Cynhyrchodd bamffled yn annog Cristnogion i ystyried eu dyletswydd i rannu'r Efengyl sef *An Enquiry into the Obligations of Christians to Use Means for the Conversion of the Heathens* (1792). Sbardunodd hwn nifer o Fedyddwyr i ymuno gyda Carey i sefydlu'r 'Particular Baptist Society for Propagating the Gospel among the Heathen' yn Kettering yn Hydref 1792. Hon oedd y gymdeithas genhadol efengylaidd gyntaf yng ngwledydd Prydain ac yn ei sgil sefydlwyd cymdeithasau cenhadol eraill ym Mhrydain, Ewrop a Gogledd America. Ar ddechrau 1793 aeth William Carey fel cenhadwr gyda John Thomas, a oedd yn llawfeddyg gyda'r East India Company, i Bengal. Wedi cyrraedd yno gyda'i deulu gweithiodd fel rheolwr mewn ffatri indigo. Dysgodd ieithoedd Bengali a Hindi a dechreuodd bregethu yn yr ieithoedd hynny.

Ym mis Ionawr 1880 symudodd i drefedigaeth Ddaneg Serampore i'r gogledd o Galcutta pan wrthododd yr East India Company i genhadon newydd aros ar eu tir. Ymhlith y newydd-ddyfodiaid yr oedd Joshua Marshman a William Ward a weithiodd gyda William Carey gan beri

llwyddiant i'r gwaith yno. Bedyddiwyd y crediniwr cyntaf o blith yr Hindwiaid sef Kirshna Pal yn Serampore yn Rhagfyr 1800. Er bod 1,400 o bobl wedi eu bedyddio erbyn 1821 teimlid fod y cynnydd yn araf. Un o'r prif resymau am hynny oedd y system cast a oedd yn faen tramgwydd mawr i efengylu. Yn ddiweddarach surodd y berthynas rhwng Cymdeithas Genhadol Fedyddiedig Llundain a William Carey a datgysylltwyd y gwaith yn Serampore oddi wrth y Gymdeithas.

Prif gyfraniad William Carey a'i gyfeillion oedd eu gwaith yn cyfieithu'r Beibl. Roedd ef a'i gyfeillion yn gyfrifol am gyfieithu'r Beibl i chwe iaith Indiaidd sef Bengali, Oriya, Sanscrit, Hindi, Marathi ac Assamaeg. Cyfieithwyd rhannau o'r Beibl i 29 o ieithoedd eraill. Cynhyrchodd hefyd ramadeg i'r ieithoedd Bengali, Marathi, Sanscrit, Punjabi, Telinga a Bhotia ac ysgrifennodd eiriaduron Marathi, Bengali a Bhotia. Dechreuodd hefyd ar y gwaith o gyfieithu'r clasur Hindŵaidd y *Ramayana* i Saesneg.

Cydnabuwyd ei arbenigedd mewn ieithoedd Indiaidd pan benodwyd ef ym 1801 fel Athro Sanscrit, Marathi a Bengali yng Ngholeg yr East India Company sef Fort William. Derbyniodd radd DD gan Brifysgol Brown, Unol Daleithiau America, ym 1807. Bu farw ar 9 Mehefin 1834 yn Serampore ac yno y'i claddwyd.